Cyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan

10 Medi 2026

C O F N O D I O N

Yn bresennol:

Y Cynghorydd Jackie Burnham (Maer)

Y Cynghorydd Sophie Baker

Y Cynghorydd Ivor Beech

Y Cynghorydd Reg Davies

Y Cynghorydd Mike Elgin (Dirprwy Faer)

Y Cynghorydd Arwel Roberts

Y Cynghorydd Val Simmons

Heidi Barton-Price - Dirprwy Glerc y Dref

Roedd 3 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

Cafodd y cyfarfod ei recordio o'r pwynt hwn (sain yn unig)

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Mike Kermode
Steve Wilson – Clerc y Dref a Swyddog Ariannol Cyfrifol
Y Cynghorydd Ann Davies
Alexandra Jones (PCSO 92839) – Eitem 4
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Gloria Lambert

2. Datgan Buddiant

Fe wnaeth y Cynghorydd Arwel Roberts ddatgan buddiant yn Eitem rhif 8 ar yr Agenda.
Fe wnaeth Cynghorydd Reg Davies ddatgan buddiant yn Eitem rhif 11 ar yr Agenda.

Fe wnaeth y Maer atgoffa pawb a oedd yn bresennol i ddilyn y Cod Ymddygiad.

3. Materion Brys fel y'u Cytunwyd gan y Cadeirydd

Tynnodd y Maer sylw at ddiagnosis diweddar y Cynghorydd Val Simmons ac ar ran y Cyngor dymunodd y gorau iddi gyda'i thriniaeth yn y dyfodol.

4. Materion y Heddlu

Roedd Alexandra Jones (PCSO 92839), yn ei habsenoldeb, wedi darparu crynodeb o weithgarwch yr heddlu yn Rhuddlan rhwng 1 Gorffennaf ac 8 Medi 2026:

Cofnodwyd cyfanswm o 256 galwad am wasanaeth. (Roedd hyn yn cael ei ystyried yn nifer cymharol fach o'i gymharu ag ardaloedd cyfagos fel y Rhyl, Prestatyn, Abergele, a Bodelwyddan).

Tynnodd y Dirprwy Glerc sylw'r Cynghorwyr at y rhestr o'r mathau o ddigwyddiadau a gofnodwyd. Roedd cyfran sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau cymharol lefel isel a oedd yn gysylltiedig ag anghydfodau teuluol rhwng rhieni a phlant.

Gofynnodd y Cynghorydd Mike Elgin faint o amser roedd y swyddog (PCSO) yn ei dreulio yn Rhuddlan a chynigiodd fod Clerc y Dref yn ysgrifennu i'r Heddlu i ofyn iddynt gadarnhad faint o amser sy'n cael ei dreulio yn y gymuned leol ac i ofyn am adroddiadau mwy penodol yn y dyfodol, e.e. cynnwys manylion am ymddygiad gwrthgymdeithasol a chymorth i breswylwyr agored i niwed, eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd.**

Roedd y Clerc wedi darparu'r data Troseddu diweddaraf – Mehefin 2026.

5. Cofnodion:

a. Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2026.

Cyflwynodd y Maer gofnodion drafft cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2026 gerbron y Cynghorwyr.

Cynigiodd y Cynghorydd Val Simmons fod y cofnodion yn gofnod cywir, eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd.**

Llofnododd y Maer y cofnodion trwy hyn.

b. Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd unrhyw Bwyllgor neu Weithgor a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf (Bioamrywiaeth 14/7 ac Etifeddiaeth 28/7)

Cyflwynodd y Maer, y Cynghorydd Jackie Burnham, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Bioamrywiaeth a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2026, gerbron y Cynghorwyr. Mynegodd ddiolch i bawb a oedd wedi helpu gyda'r gwaith plannu yng Ngae'r Llyngesydd a hefyd i Gymdeithas y Rhandiroedd am ddyfrio trwy gydol y cyfnod sych.

Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod y cofnodion yn gofnod cywir, eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Mike Elgin. **Penderfynwyd.**

Llofnododd y Maer y cofnodion trwy hyn.

Cyflwynoddd y Cynghorydd Arwel Roberts gofnodion drafft cyfarfod y Gweithgor Etifeddiaeth a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2026 gerbron y Cynghorwyr. Mynegwyd diolch am gyhoeddi'r ffilmiau Etifeddiaeth.

Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod y cofnodion yn gofnod cywir, eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Reg Davies. **Penderfynwyd.**

Llofnododd Cadeirydd y Gweithgor Etifeddiaeth y cofnodion trwy hyn.

6. Adroddiad Cynnydd ar sail y cofnodion

Cyflwynodd Dirprwy Glerc y Dref y diweddariadau canlynol ar gynnydd:

- Roedd Sir Ddinbych yn Gweithio yn bresennol yn y Ffair i Wirfoddolwyr ar 1 Awst ac roedd yr adborth yn gadarnhaol.
- Anfonwyd llythyr i'r Heddlu yn gofyn am gynnal Ymgyrch Atal yn fwy rheolaidd yn Rhuddlan.
- Plannwyd planhigion yn y cynwysyddion plannu ar Gae'r Llyngesydd ar 20 Gorffennaf.
- Cynhaliwyd cyfarfod gyda Swyddog Coed CSDd – gweler eitem 7b.
- Cwblhawyd y gwaith yn ardal y Marchogion a gardd rosod y llyfrgell.
- Anfonwyd taliadau mis Awst i'w cymeradwyo.
- Roedd y New Inn wedi mynegi diddordeb yn y digwyddiad Carolau neu'r posibilrwydd o gynnal digwyddiad ar y cyd adeg y Nadolig.
- Yn dal i aros am ymateb gan CSDd ynglŷn â'r cynwysyddion plannu ger y gylchfan.
- Eitem i drafod digwyddiad "Cyfarfod y Cynghorwyr" – mae'r digwyddiad wedi'i ohirio nes i'r Daflen Etholiad gael ei danfon.

7. Adroddiadau gan:

a. Y Maer a'r Dirprwy Faer

Roedd y Maer a'r Dirprwy Faer wedi cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig a gwnaethant eu cyflwyno gerbron y cynghorwyr.

Cyfeiriodd y Maer at y Picnic yn y Parc a Ffair y Gwirfoddolwyr a gynhaliwyd ar 1

Awst, a diolchwyd i'r Cynghorydd Ivor Beech am ddarparu'r bêls gwellt ac i bawb am eu cefnogaeth ar y diwrnod.

Diolchodd y Dirprwy Faer i'r Cynghorydd Arwel Roberts am gynnal ei fore coffi llwyddiannus a gododd £635 ar gyfer Grŵp Dementia Rhuddlan.

Derbyniwyd y ddau adroddiad.

b. Clerc y Dref – gohebiaeth ac adroddiad ar y prosiectau

Arolygon Coed: Roedd Clerc y Dref wedi cyfarfod Swyddog Coed Cyngor Sir Ddinbych a nodi pum coeden yr oedd angen eu harolygu (byddai Clerc y Dref yn gofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer y gwaith arolygu):

- Cae'r Llyngesydd: un Onnen, dwy Sycamorwydden
- Cae Chwarae Coetiau Postol: dwy Sycamorwydden
  Mae'n ofynnol i gynnal arolygon bob tair blynedd o leiaf, yn dibynnu ar gyflwr pob coeden.
- Torri canghennau Draenen wen: Sylwyd bod dwy gangen draenen wen wedi torri yng Nghae Chwarae Coetiau Postol a'u bod yn beryglus. Gofynnwyd am ddyfynbris gan Glascoed i'w torri.

Ffair y Gwirfoddolwyr: Diolchwyd i bawb a oedd wedi cefnogi Ffair y Gwirfoddolwyr a'r Picnic yn y Parc ar 1 Awst. Roedd llawer o bobl yn bresennol yn y digwyddiad, ac roedd yr adborth gan yr 20+ o grwpiau gwirfoddol a oedd yn bresennol yn gadarnhaol iawn.

Gohebiaeth: Derbyniwyd y canlynol:

1. Ymateb gan Dîm Ffyrdd CSDd ynglŷn â phryderon am gerbydau'n goryrru a'r diffyg palmentydd ar rannau cul Abbey Road – rhannwyd gyda'r cynghorwyr ar 14 Gorffennaf.

2. Diolch gan St Kentigern am noddi'r tî golff; codwyd cyfanswm o £13,000 yn ystod y digwyddiad.

3. Pryderon gan breswyliwr yn Lôn Pentre ynglŷn â'r posibilrwydd o osod ceblau ger Lôn Pentre a'r effaith ar Lôn Pentre. Anfonwyd gwybodaeth at y preswyliwr gan CSDd.

4. Diolch gan Sam Brumby am yr arian grant i'w alluogi i fynd i Jamborî y Sgowtiaid.

5. Ymholiad gan breswyliwr pryderus ynglŷn â honiad bod preswyliwr yn rhedeg busnes barbwr o dŷ ar Lôn Hylas. Rhoddwyd cyngor i'r preswyliwr ynglŷn â phwy y dylid cysylltu â nhw yn CSDd.

6. Nodyn gan adran gynllunio CSDd ynghylch Wymore Villa yn datgan nad oes gan Beiriannydd Priffyrdd CSDd unrhyw bryderon ynglŷn â'r cynlluniau. Roedd y cyngor hefyd wedi adolygu cynlluniau a oedd yn datgan mai 3 o blant yn unig fyddai'n cael eu cartrefu yno, gan leihau rhai o'r pryderon yn

ymwneud â ffyrdd y cyfeiriwyd atynt. Y consensws gan y cynghorwyr a oedd wedi ymateb oedd bod cais cynllunio gwreiddiol y cyngor yr un fath o hyd.

Mynegodd y Cynghorydd Ivor Beech bryderon ynglŷn â'r newid defnydd a'r angen i gydymffurfio â'r amod ar gyfer 3 o blant a niferoedd staffio. Cynigiodd y Cynghorydd Val Simmons, ac eiliodd y Cynghorydd Ivor Beech, y dylid codi'r mater yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio. **Penderfynwyd.**

7. Hysbysiad swyddogol gan NALC yn nodi y cytunwyd ar gytundeb cyflog 2026/2027 ar gynnydd o 3.3% wedi'i ôl-ddyddio i fis Ebrill.

8. Hysbysiad gan CSDd yn nodi y talwyd yr ail daliad praesept o £65,813.33 i'r cyngor ar 28 Awst.

9. Hysbysiad gan CSDd ynglŷn ag ymgynghoriad cyhoeddus ar gyflwyno llinellau melyn dwbl ar hyd darn bach o Abbey Road.

Dyddiad i'r dyddiadur

Gorymdaith Sul y Cofio ar 8 Tachwedd 2026. Cyfarfod ger y Ganolfan Gymunedol am 10.15am

c. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir

Adroddiad gan y Cynghorydd Arwel Roberts

Cyflwynodd y Cynghorydd Arwel Roberts ei adroddiad ysgrifenedig gerbron y Cynghorwyr, gan ddiweddaru'r Eitemau canlynol:

1. Roedd y gwaith torri wedi'i gwblhau, ond roedd problem debyg bellach ar Marsh Road.
2. Arwyneb llawr yr ardal chwaraeon amlbwrpas (Muga) – i'w roi ar yr Agenda yn y cyfarfod ym mis Hydref.
3. Cynhelir cyfarfod nesaf Gwarchodfa Natur Rhuddlan ar 11 Medi (cadarnhaodd y Maer y bydd yn bresennol). Mae hefyd yn gweithio gyda Willow Collective ar fater cynwysyddion bagiau baw ci.
6. Mae'r eitem yn ymwneud â Barrfield Road heb ei datrys.
7. Bydd yn cyfarfod Pennaeth Ysgol y Castell ar 11 Medi ac mae llawer o welliannau yn digwydd yno.

Hefyd:

Yn edrych ar lwyfan y Capel ac a fyddai Cyngor Tref Rhuddlan yn gallu ymgymryd â hyn a'i logi; byddai Clerc y Dref yn adrodd yn ôl ar y mater hwn.

Rhoddodd drosolwg o strwythur gwleidyddol Cabinet CSDd, penodiad yr Arweinydd newydd a'r Cabinet newydd ar gyfer y cyfnod 8 mis sy'n weddill.

Cyfeiriodd at broblemau gyda'r gât wrth y llwybr halio ac e-bost a dderbyniwyd gan CSDd i ariannu gwelliannau a rhoi eglurder ynghylch perchnogaeth.

Derbyniodd y cynghorwyr yr adroddiad.

8. **Cynllunio** (Y Cynghorydd Arwel Roberts – Datgan Buddiant ar gyfer yr eitem hon)

Trafododd y cynghorwyr y cynigion canlynol:

a. 44/2026/0310/PF Codi bloc stablau ynghyd ag ardaloedd troi allan, manege, a gwaith cysylltiedig ar dir gerllaw Morfa Lodge, Ffordd Abergele, Rhuddlan

   Cynigiodd y Cynghorydd Ivor Beech nad oedd unrhyw wrthwynebiad na sylwadau, eiliwyd gan y Cynghorydd Sophie Baker. **Penderfynwyd.**

b. 44/2026/0320/HH Gosod ffenestri dormer ym mlaen annedd ac addasiadau yn 5 Fairlands Crescent, Rhuddlan.

   Cynigiodd y Cynghorydd Mike Elgin nad oedd unrhyw wrthwynebiad na sylwadau, eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd.**

c. 44/2026/0330/HH Codi estyniad deulawr ac unllawr yng nghefn annedd yn Tegfan, Stryd y Castell, Rhuddlan.

   Cynigiodd y Cynghorydd Val Simmons nad oedd unrhyw wrthwynebiad na sylwadau, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin. **Penderfynwyd.**

d. 44/2026/0272/PF Codi un annedd ar wahân a gwaith cysylltiedig yn The Orchard, Pentre Lane, Rhuddlan.

   Cynigiodd y Cynghorydd Val Simmons ac eiliodd y Cynghorydd Ivor Beech nad oedd yn sylwadau a wnaed yn flaenorol wedi derbyn sylw, ac y dylai'r ymateb fod yr un fath â'r hyn a nodir yng nghofnodion 9 Gorffennaf. **Penderfynwyd.**

   h.y. Mynegodd sawl aelod o'r cyhoedd bryder ynglŷn â'r cais hwn a bod y cyngor yn amlygu'r pryderon hyn yn ei ymateb i'r cais cynllunio gan gynnwys y canlynol:

   i. Maint y datblygiad mewn perthynas â maint y safle.
   ii. Materion yn ymwneud â diogelwch y ffyrdd o ran y fynedfa i'r safle gan fod y lôn yn gul iawn yn y man hwnnw.
   iii. Problemau presennol o ran diogelwch y ffyrdd oherwydd bod llawer o bobl yn defnyddio'r lôn, diffyg arwyddion.
   iv. Cysondeb penderfyniadau adran gynllunio CSDd oherwydd gwrthodwyd rhoi caniatâd ar gyfer datblygiad blaenorol am dŷ deulawr.
   v. Pryderon ynghylch capasiti'r isadeiledd carthffosiaeth.

9. Y Gyllideb a Materion Ariannol

a. Ceisiadau am grantiau

a. Apêl Flynyddol Cyngor Parlys yr Ymennydd Cymru 2026-2027

Cynigiodd y Cynghorydd Val Simmons, ac eiliodd y Cynghorydd Sophie Baker, fod y cyngor yn cyfrannu £100 at waith yr elusen yn ystod 2026-2027 i gefnogi therapi a gofal arbenigol hanfodol i blant ledled Cymru (ar hyn o bryd 5 o blant a'u teuluoedd yn Sir Ddinbych). **Penderfynwyd.**

b. Clwb Pêl-rwyd Northern Steel

Cynigiodd y Cynghorydd Val Simmons, ac eiliodd y Cynghorydd Arwel Roberts, fod y cyngor yn cyfrannu £100 at Glwb Pêl-rwyd Northern Steel tuag at eu costau wrth gynrychioli Cymru yn y Pencampwriaethau Cenedlaethol. Gofynnodd y Maer i Glerc y Dref, wrth wneud y taliad, roi gwybod i aelodau'r Clwb Pêl-rwyd y dylent oll ofyn i'w cynghorau tref/cymuned am gyllid ychwanegol. **Penderfynwyd.**

b. Adolygu incwm a gwariant y flwyddyn hyd yma

Roedd Clerc y Dref wedi darparu crynodeb o incwm a gwariant y flwyddyn hyd yma. Mae canran y gwariant ar y trywydd iawn ar y cam 6 mis hwn ac nid oes pryderon ynglŷn â'r gyllideb. Cynigiodd y Cynghorydd Reg Davies fod y cyngor yn derbyn y crynodeb, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Mike Elgin. **Penderfynwyd.**

c. Cymeradwyo'r rhestr o daliadau sy'n ddyledus ym mis Medi
Roedd y Clerc wedi darparu'r rhestr o daliadau sy'n ddyledus ym mis Medi. Cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at ddau ychwanegiad i'r rhestr.
Cynigiodd y Cynghorydd Mike Elgin fod y taliadau a gynigiwyd ar gyfer mis Medi yn cael eu cymeradwyo i'w talu, eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd.**

d. Cynyddu nifer y defnyddwyr ar gyfer system ariannol Rialtas

Cwestiynwyd y dyfynbris a gafwyd am gostau blynyddol cynyddu nifer y defnyddwyr ar gyfer system ariannol Rialtas a chynigiwyd y dylai Clerc y Dref geisio negodi cyfradd flynyddol well ar gyfer 2 ddefnyddiwr. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Val Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sophie Baker. **Penderfynwyd.**

10. Cymru yn ei Blodau 2027

Cynigiodd y Maer, y Cynghorydd Jackie Burnham, fod Rhuddlan yn ymgeisio unwaith yn rhagor yng nghystadleuaeth Cymru yn ei Blodau 2027. Byddai

angen sefydlu grŵp Cymru yn ei Blodau Rhuddlan a fyddai'n derbyn cefnogaeth ac yn dod â grwpiau at ei gilydd o bob rhan o Ruddlan. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts ac eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd.**

11. Llythyr yn Cefnogi Cynlluniau Eglwys y Santes Fair (fe wnaeth y Cynghorydd Reg Davies ddatgan buddiant ar gyfer yr eitem hon a gadawodd yr ystafell)

Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod Clerc y Dref yn anfon llythyr i gefnogi cynlluniau Eglwys y Santes Fair; eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Sophie Baker. **Penderfynwyd.**

Ailymunodd y Cynghorydd Reg Davies â'r cyfarfod.

12. Ymrwymiad a Chytundeb Lefel Gwasanaeth 3 blynedd ar gyfer Clwb Ieuenctid Rhuddlan

Trafodwyd yr ymrwymiad arfaethedig o gytundeb lefel gwasanaeth 3 blynedd ar gyfer Clwb Ieuenctid Rhuddlan a chynigiodd y Cynghorydd Mike Elgin fod y cynnig yn cael ei dderbyn; eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd.**

13. Teledu cylch cyfyng (CCTV) heb fod yn rhy ddrud i'r Hwb

Trafodwyd costau camera a chynllun blynyddol ar gyfer Storio Cwmwl. Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod y cyngor yn prynu'r eitemau hyn fel mesur ataliol, gyda Cherdyn Sim fel eitem ychwanegol; eiliwyd gan y Cynghorydd Ivor Beech. **Penderfynwyd.**

14. Coeden Nadolig ar y Gylchfan

Ystyrid bod y dyfynbrisiau a dderbyniwyd gan ddau gwmni yn anhyfyw.

Dyma rai opsiynau eraill y gallai Clerc y Dref ymchwilio iddynt:

Cyngiodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod y Cyngor yn ystyried gosod goleuadau ar y coed sydd eisoes ar y gylchfan; eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Val Simmons fel opsiwn posibl.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Reg Davies at rai o'r coed Nadolig blaenorol yn y Kings Head. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Elgin fod y Cyngor yn holi'r Kings Head a oedd yn ymarferol gosod coeden Nadolig ar eu tir / darpariaeth drydanol (ei symud o'r tu allan i Prosperity) ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Arwel Roberts fel opsiwn posibl arall.

15. Cyrsiau Coginio a Maeth yn y Gymuned

Dosbarthwyd manylion cyrsiau Sgiliau Maeth am Fywyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cynigiodd y Cynghorydd Sophie Baker fod hyn yn cefnogi ffordd o fyw unigolion ac eiliwyd ei chynnig gan y Cynghorydd Ivor Beech fod y cyngor yn cefnogi'r fenter ac yn cynnig yr Hwb am ddim i gynnal y sesiynau maeth/coginio ac yn helpu i roi cyhoeddusrwydd i'r sesiynau gyda'r nod y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn eu cynnal ar nos Fawrth/Fercher.

16. Materion Cymunedol

Cadarnhaodd y Cynghorydd Jackie Burnham fod y peiriannau sychu dwylo newydd yn y Ganolfan Gymunedol bellach yn eu lle. Roedd rheiliau'r Toiledau Cyhoeddus wedi'u tynnu ac ar hyn o bryd rydym yn aros i glywed gan CSDd pryd y bydd y toiledau'n cael eu hail-agor yn "swyddogol" i'r cyhoedd. Mae'r goeden yn Bodrhyddan Avenue yn dal yn hongian drosodd (roedd y Cynghorydd Arwel Roberts wedi codi'r mater gyda CSDd hefyd).

Dywedodd y Cynghorydd Ivor Beech nad oedd y glaswellt wedi'i dorri ar dir y Castell a gofynnodd i'r cyngor anfon llythyr i Cadw yn gofyn iddynt roi sylw i'r mater hwn.

Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts yn mynd i ailddechrau'r sesiynau casglu sbwriel a byddai rhestr o ddyddiadau yn cael eu hysbysebu.
Cyfeiriodd y Cynghorydd Jackie Burnham at breswyliwr a'i ofalwr sy'n casglu sbwriel yn rheolaidd yn Rhuddlan a gofynnodd a fyddai'n bosibl anfon llythyr o ddiolch atynt ar ôl canfod beth oedd enwau'r unigolyn hyn.

Rhan 2 Cau allan y Wasg a'r Cyhoedd
BUSNES RHAN 2 – Cynigiodd y Cynghorydd Sophie Baker, ac eiliodd y Cynghorydd Mike Elgin, a phenderfynwyd drwy hyn yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu cau allan o drafodaethau am weddill y cyfarfod ar y sail y byddai datgelu'r trafodaethau yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

Gadawodd y 3 aelod o'r cyhoedd y cyfarfod.

Rhoddwyd y gorau i recordio'r cyfarfod (sain yn unig) ar y pwynt hwn.

17. Adolygu'r rhesymau dros ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Mike Kermode – ar wyliau
Steve Wilson – Clerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol – ar wyliau
Y Cynghorydd Ann Davies – Rhesymau personol
Y Cynghorydd Bleddyn Williams – Ymrwymiadau gwaith
Y Cynghorydd Gloria Lambert – Salwch

Cynigiodd y Cynghorydd Sophie Baker fod y rhesymau a roddwyd yn cael eu derbyn; eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Val Simmons. Derbyniwyd.

18. Dyddiad y cyfarfod nesaf:

- Cyfarfod llawn Cyngor y Dref dydd Iau, 8 Hydref 2026

Llofnodwyd ……..

Dyddiad: 8 Hydref 2026